

Cymdeithas Undebol

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yn y Gymdeithas Undebol yn Capel Coch nos Fawrth diwethaf. Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran mewn unrhyw ffordd.

Bocsys Nadolig

Bydd cyfle eleni eto i anfon anrhegion mewn bocsgidiau i blant anghenus mewn gwledydd tramor trwy'r elusen Teams 4 U. Fel yr eglurwyd y llynedd, yr un bobl a sefydlodd yr elusen hon ag a sefydlodd Ymgyrch Plentyn y Nadolig (Operation Christmas Child).

Bydd angen i'r bocsgys esgidiau fod yn barod erbyn nos Sul, Tachwedd 19.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Hydref 29: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Thomas A Williams, Caernarfon.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Hydref 27: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 29: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Andrew Settatee ac am 5.00 o'r gloch gan Mr Dewi Jones, Pwllheli. Ni fydd Ysgol Sul/

CARMEL

Dydd Llun, Hydref 23: Te Bach am 2.30

Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 22

5.00 p.m. - Y Parchg Reuben Roberts

Hydref 29

5.00 p.m. - Mr Thomas A Williams

Tachwedd 5

3.30 p.m. - Y Gweinidog

o'r gloch.

Nos Wener, Hydref 27: Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 29: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

BETHLEHEM

Nos Fercher, Hydref 25: Noson Goffi er budd Cronfa Logan Sellers am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 29: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch; a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Ddr Elwyn Richards, Caernarfon.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 29: Ni fydd oedfa.

CYNLLUN EFE

Nos Lun, Hydref 23: Am 7.00 o'r gloch yn Capel Coch bydd Cyfarfod Comisiynu Catrin Hampton yn Weithiwr newydd Cynllun Efe.



Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 22

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Hydref 29

10.00 a.m. - Mr Andrew Settatee
5.00 p.m. - Mr Dewi Jones

Tachwedd 5

10.00 a.m. - Y Parchg Megan Williams
5.00 p.m. - Y Parchg Huw Pritchard



A ninnau'n agosau at ddiwedd Hydref, dwyf fi ddim am un eiliad yn disgwyl i chi gofio beth oedd testun erthyglau *Gronyn* ddechrau'r flwyddyn. Ond fe soniwyd ganol Ionawr a dechrau'r mis bach am ddau ddigwyddiad a dau ddydd arbennig a fyddai'n cael eu cofio a'u dathlu eleni. Ac yn ystod y flwyddyn fe roddwyd sylw i 300 mlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn, y Pêr Ganiedydd yn 1717, a 500 mlwyddiant y Diwygiad Protestanaidd, a Martin Luther ar ddydd olaf Hydref 1517 yn hoelio ar ddrws eglwys yn Wittenburg yn yr Almaen boster ac arno 95 erthygl yn beirniadu Eglwys Babyddol ei ddydd.

Cyn i'r mis Hydref hwn fynd heibio, mae'n werth sôn am drydydd dathliad o bwys, sef 450 mlwyddiant y Testament Newydd Cymraeg cyntaf. Ar Hydref 7, 1567 y cyhoeddwyd hwnnw, a'r gŵr a oedd yn bennaf cyfrifol am ei gyfieithu oedd William Salesbury. Ond wedi cyhoeddi'r Beibl Cymraeg cyfan yn 1588, mae'n hawdd iawn deall sut y gwthiwyd Salesbury i'r cysgodion wrth i'r Esgob William Morgan gael y sylw fel cyfieithydd y Beibl.

Ychydig iawn o ddarllen a fu ar waith Salesbury ers blynnyddoedd lawer gan fod Beibl William Morgan wedi dod mor gyfarwydd. Wedi dweud hynny, dylid cofio mai diwygio cyfieithiad Salesbury a wnaeth William Morgan i raddau helaeth. Erbyn hyn, gallwn gymharu'r ddau fersiwn gan fod modd darllen cyfieithiad Salesbury ar dabled

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 745: 22 Hydref, 2017

450 mlynedd yn ôl

neu ffôn symudol (ar 'Ap Beibl'). Dylid dweud bod Testament Newydd Salesbury wedi ei ailargraffu yng Nghaernarfon yn 1850, a bod y fersiwn hwnnw wedi ei olygu mae'n debyg gan ŵr o'r enw Isaac Jones, a ddiwygiodd rywfaint ar ei orgraff. Dyma'r fersiwn a welir ar Ap Beibl. Y peth rhyfeddol yw mor rhwydd yw ei ddarllen o feddwl ei fod yn 450 mlwydd oed.

Mae'r tri dathliad hyn yn ein hatgoffa o'r ffaith fod i'r Efengyl hanes hir a llewyrchus yma yng Nghymru ac ar gyfandir Ewrop. Ac nid yw'r hanes hwnnw wedi ei gyfyngu i'r pum can mlynedd diwethaf nac i un cyfandir. Mae'r Ffydd Gristnogol yn ymestyn nôl i ddyddiau Crist ei hun, a chafodd ei chofleidio ar bob cyfandir. Ond nid y ffaith ei bod yn hen na'r ffaith iddi barhau o oes i oes sy'n rhoi i ni'r hyder y bydd y Ffydd hon yn cael ei harddel ymhen 300 a 450 a 500 o flynyddoedd arall (oni bai y bydd Ailddyfodiad Iesu wedi dod cyn hynny). Gwraidd ein hyder ynghylch parhad y dystiolaeth Gristnogol yw'r ffaith mai Efengyl Duw yw hi. Duw yw ei hawdur; Duw a'n carodd trwy anfon ei Fab Iesu'n Waredwr; a thrwy'r Efengyl, Duw a ddaw â phobl ym mhob cenhedlaeth i'r bywyd tragwyddol sydd yn Iesu Grist. Ni allwn warantu parhad ein heglwysi na'n traddodiadau na'n henwadau na phatrwm ein haddoliad. Ond gan mai Efengyl Duw yw hi, gallwn warantu y pery hon, yn oleuni, gobaith a bywyd i bawb a ddaw at Grist trwy ffydd. Ac achos dathlu tragwyddol yw hynny.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Gwrandewch fy nysgeid-
iaeth, fy mhobl, gogwyddwch
eich clust at eiriau fy ngenau
... pethau a glywsom ac a wyddom, ac a
adroddodd ein hynafiaid wrthym. Ni
chuddiwn hwy oddi wrth eu disgynydd-
ion, ond adroddwn wrth y genhedlaeth
sy'n dod weithredoedd gogoneddus
yr ARGLWYDD, a'i rym, a'r pethau
rhyfeddol a wnaeth. Fe roes ddyletswydd
ar Jacob, a gosod cyfraith yn Israel, a
rhoi gorchymyn i'n hynafiaid, i'w dysgu
i'w plant; er mwyn i'r to sy'n codi wybod,
ac i'r plant sydd heb eu geni eto ddod ac
adrodd wrth eu plant; er mwyn iddynt roi
eu ffydd yn Nuw, a pheidio ag anghofio
gweithredoedd Duw, ond cadw ei orch-
mynion' (Salm 78:1-7).

Heddiw

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yn
yr Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r
gloch gan y Parchg Reuben Roberts,
Bontnewydd.

Bydd Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30
o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r
gloch gan y Gweinidog

Bydd Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00
o'r gloch, a Gwasanaeth Diolchgarwch
yn yr Oedfa Deulu am 2.00 o'r gloch.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion



BEIBL BYW



GWASANAETH COMISIYNU

Cynhelir Gwasanaeth Comisiynu Catrin
Hampton yn Weithiwr Plant, Ieuentid a
Theuluoedd Cynllun Efe yn Capel Coch
am 7.00 o'r gloch, nos Lun, Hydref 23.

Bydd yr oedfa yn gyfle i ni ddod at ein
gilydd i gyflwyno Catrin a'r gwaith i
ofal Duw.

Cawn gwmni aelodau capel Caersalem,
Caernarfon a chynrychiolwyr Scripture
Union Cymru sy'n cydweithio â ni i
gynnal y swydd hon.

Croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod.

Cwrs Ieuentid

Blynyddoedd Ysgol 7-11
Yng Ngholeg y Bala
Nos Wener - Dydd Sul
Tachwedd 3-5, 2017

Holwch y Gweinidog am fanylion am y
Cwrs Ieuentid nesaf hwn a gynhelir yng
Ngholeg y Bala yn ystod gwyliau hanner
tymor yr Ysgol y mis nesaf os ydych am
i rywun gael cyfle i fynd yno.

Mae angen archeb lle o fewn y dyddiau
nesaf.

Noson Goffi

Bydd eglwys Bethlehem Talybont yn
cynnal Noson Goffi nos Fercher, Hydref
25 i godi arian at y gronfa a drefnwyd i
estyn cymorth i Logan Sellers a'i deulu,
wrth i Logan wynebu triniaeth ysbyty.
Dymunwn y gorau i Logan wrth gwrs.

Eglwys Annibynnol Bethlehem,
Talybont
Nos Fercher, Hydref 25
am



Stondinau amrywiol

Pris mynediad £1 wrth y drws
Yr elw i gyd i helpu
Logan Sellers 16.Cae Gwigin
Derbynnir rhoddion yn ddiolchgar

Capel Ebeneser

Yn dilyn cyngor a gafwyd oddi wrth y
cyfreithwyr a syrfewyr penderfynodd
aelodau Ebeneser, Deiniolen, mewn
Cyfarfod Eglwys a gynhaliwyd ddechrau
Mai, y byddai'r capel yn cael ei werthu
trwy ocsiwn. Ddydd Iau, Hydref 5,
mewn ocsiwn a gynhaliwyd ym Mangor
fe werthwyd y capel, a disgwyliwn i'r
gwerthiant gael ei gwblhau o fewn yr
wythnosau nesaf, erbyn diwedd y
flwyddyn fan bellaf, wedi i'r holl waith
cyfreithiol ac ariannol arferol gael ei
wneud.

Y capel yn unig sydd wedi ei werthu,
wrth gwrs. Bydd oedfaon arferol eglwysi
Ebeneser a Cefnywaun yn parhau i gael
eu cynnal yn y festri bob Sul.

Bwrlwm

Yng nghyfarfod yr wythnos ddiwethaf o
Bwrlwm yn festri Bethlehem, Talybont
cafwyd dathliad pen blwydd buan i Mr
Neville Hughes. Roedd aelodau'r capel
wedi trefnu anrheg a chacen arbennig
iddo i ddathlu ei ben blwydd yn 80 oed
yr wythnos hon. Torrwyd y gacen, a
chafodd pawb ddarn ohoni gyda'u paned.
Yn briodol iawn, roedd y cerdyn a'r llun
mewn ffrâm a gyflwynwyd iddo yn nodi:
'Diolch, Nev,

am oes o wasanaeth ffyddlon a diflino

i'th gartref a'th deulu
i'th gapel a'th enwad
i'th fro a'th ffrindiau
i'th iaith, i'th blaid a'th wlad.'

Gyda llaw bydd cyfle i glywed Neville
yn cael ei holi ar y slot pen blwydd ar
Raglen Dewi Llwyd ar Radio Cymru ar
fore Sul o fewn yr wythnos neu ddwy
nesaf.

CIC

Cynhelir CIC yn Capel Coch nos Wener
yr wythnos hon (Hydref 27) am 7.00 o'r-
gloch.